Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

4 Medi 2020

Annwyl Rebecca

**Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

Gwnaethom ystyried Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 (Rheoliadau 2020) yn ein cyfarfod ar 24 Awst a gosod ein **hadroddiad** yr un diwrnod.

Amlygodd ein hadroddiad y pwynt craffu rhinweddau canlynol:

> "Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ag "awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru". Anfonwyd llythyr at gyfarwyddwyr awdurdodau lleol ar 29 Gorffennaf 2020 yn nodi'r bwriad, a "gofynnwyd i awdurdodau lleol ymateb gan nodi unrhyw bryderon." Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn egluro a wnaeth awdurdodau lleol ymateb ag unrhyw bryderon ai peidio.."

Nodwn, ers ein cyfarfod, ein bod wedi cael ymateb Llywodraeth Cymru, sy'n mynd i'r afael â'r pwynt a wnaed gennym. Credwn y dylai'r wybodaeth hon fod wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol, o ystyried natur arwyddocaol Rheoliadau 2020.

Rydym yn tynnu'r pwynt hwn at eich sylw ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried yr angen i ddarparu lefel briodol o fanylion wrth gyfiawnhau ei pholisïau mewn Memoranda Esboniadol a baratowyd i gefnogi rheoliadau.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565